**Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Pensiwn Lleol a gynhaliwyd ar 30 Ebrill 2018 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Parc Busnes Llanelwy**

YN BRESENNOL
Richard Fairhead, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân, Cynrychiolydd y Cyflogwr (Cadeirydd)
Y Cyng. Bryan Apsley, Cynrychiolydd y Cyflogwr
Julie Brown, Pennaeth Cyllid, yn cynghori
Parry Davies, Undeb yr FBU, Cynrychiolydd y Gweithwyr
Geraint Hughes, Cymdeithas y Swyddogion Tân, Cynrychiolydd y Gweithwyr
Y Cyng. John Brynmor Hughes, Cynrychiolydd y Cyflogwr
Helen MacArthur, Prif Swyddog Cynorthwyol, yn cynghori
Shân Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol, yn arsylwi
Paul Scott, Cymdeithas y Swyddogion Tân, Cynrychiolydd y Gweithwyr
Alwen Davies, Swyddog Cyswllt Aelodau, yn cofnodi

YMDDIHEURIADAU
Y Cyng. J Rodney Skelland, Cynrychiolydd y Cyflogwr
Ruth Simmons, PSTC, Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân, Cynrychiolydd y Gweithwyr
Blythe Roberts, Undeb yr FBU, Cynrychiolydd y Gweithwyr

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 O ran y drafodaeth yn y cyfarfod diwethaf am y seminar pensiynau sy'n cael ei gynnal dair blynedd cyn oedran ymddeol, datganodd Parry Davies y byddai ganddo fuddiant yn hyn. Dywedodd hefyd y byddai cynyddu'r cymudiad o 2.5 i 25 yn fuddiant posibl iddo.

2 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF A MATERION YN CODI

2.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Ionawr 2018 eu cymeradwyo'n gofnod cywir. Dyma'r materion a oedd yn codi:

2.2 5.3 – nodwyd mai mater i'r Gwasanaeth, ac nid y Bwrdd Pensiwn Lleol, yw adeg cynnal seminar ar gyfer gweithwyr sy'n dymuno ymddeol.

2.3 9.1 – cynnydd gan Lywodraeth Cymru am ailbrisio – ni fu unrhyw gynnydd pellach ers y cyfarfod diwethaf.

3 CYLCH GORCHWYL

3.1 Cyflwynodd y PSC MacArthur y cylch gorchwyl i'r aelodau eu cymeradwyo. Dyma'r newidiadau:

- Yn y cyfarfod diwethaf, roedd yr aelodau wedi cytuno i gynnal tri chyfarfod o'r Bwrdd Pensiwn Lleol bob blwyddyn, yn hytrach na dau.

- Diwygio aelodaeth gyffredinol y grŵp i adlewyrchu'r ffaith na ddylai aelodaeth y Bwrdd Pensiwn Lleol fod yn llai na chwe aelod (i gyd), gyda nifer gyfartal o gynrychiolwyr i'r cyflogwr a'r gweithwyr.
- Bydd papurau'r cyfarfod yn cael eu dosbarthu dri diwrnod gwaith cyn y cyfarfod.

3.2 Dywedodd Parry Davies fod y cylch gorchwyl yn cyfeirio at ATAGC a GTAGC fel yr awdurdod sy'n gweinyddu, a chytunwyd i gael eglurhad am hyn a diwygio'r mater cyn cyhoeddi'r cylch gorchwyl.

3.3 Hefyd, dywedodd Parry Davies fod angen egluro rhagor ar baragraff 17 o'r cylch gorchwyl, a dywedodd HM y byddai hi'n cymryd hyn fel cam gweithredu, cyn cyhoeddi'r cylch gorchwyl diwygiedig.

3.4 **PENDERFYNWYD cytuno ar y cylch gorchwyl diwygiedig ar gyfer 2018-19, yn ddibynnol ar egluro'r materion uchod, cyn ei gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.**

4 Y DIWEDDARAF AM GYNLLUNIAU PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN

4.1 Cafodd yr adroddiad ei gyflwyno i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am faterion cyfredol yn ymwneud â Chynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân, gan gynnwys:

- Mae un gŵyn gyda'r Ombwdsmon Pensiynau, ac nid oes dim gwybodaeth am y dyddiad pryd disgwylir ei datrys.

- Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 1992 – Buddion Pensiwn Ychwanegol – cytunwyd ar hyn yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Mawrth. Cytunwyd y byddai RF ac HM yn trafod y dyddiad cychwyn gyda'r undebau cynrychioladol.

- Norman vs Cheshire – mae tîm cyfreithiol sy'n cael ei dalu wrthi'n penderfynu ar y canllawiau ynglŷn â pha elfennau ddylai fod yn bensiynadwy a pha rai ddylai fod yn amhensiynadwy; mae'r mater yn cael ei ystyried ar lefel Cymru gyfan; dywedodd Parry Davies y byddai aelodau Undeb yr FBU yn falch o weld y mater yn cael ei ddatrys yn fuan ond roedd yn cydnabod mai doeth fyddai symud ymlaen ar yr un cyflymder â GTAau eraill gan fod y mater yn cael ei drin ar lefel Cymru gyfan a'i fod yn effeithio ar holl GTAau Lloegr hefyd; nodwyd y bydd y mater yn cael ei drafod yng nghyfarfod Bwrdd Cynghori'r Cynllun ym mis Gorffennaf.

- Polisi Disgresiynol y Diffoddwyr Tân – yn dilyn cyflwyno cynllun pensiwn newydd yn 2015, roedd disgresiynau cyfredol ATAGC wedi cael eu hadolygu ac roedd y rhain wedi cael eu dosbarthu i'r aelodau ynghyd â'r penderfyniad polisi priodol fel yr argymhellwyd i'r Awdurdod Tân ac Achub. Cafodd yr aelodau eu gwahodd i roi

sylwadau am y disgresiynau cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r ATAGC eu cymeradwyo yn ei gyfarfod ym mis Mehefin. Dywedodd Parry Davies y byddai'n fuddiol i'r aelodau wybod am y disgresiynau y cytunir arnynt yn lleol. Cadarnhawyd y gellid eu cyhoeddi ar dudalen y Bwrdd Pensiwn Lleol ar ôl cyfarfod ATAGC.

4.2 **PENDERFYNWYD:**

**(i) nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad;**

**(ii) cytuno y byddai'r PSTC Fairhead a'r PSC MacArthur yn trafod dyddiad cychwyn y buddion pensiwn ychwanegol gyda'r undebau cynrychioliadol.**

5 MODIWL HYFFORDDI – DATRYS ANGHYDFOD MEWNOL

5.1 Aeth Pennaeth Cyllid â'r aelodau drwy'r modiwl ar gynnal a chadw cyfraniadau aelodau, ac yna roedd yr asesiad wedi'i gwblhau'n llwyddiannus.

5.2 Dyma'r amcanion dysgu:

- pwysigrwydd gweithdrefn fewnol ar gyfer datrys cwynion
- y gofynion cyfreithiol ar gyfer datrys cwynion
- pa gwynion sydd wedi'i heithrio
- sut i sefydlu gweithdrefn fewnol ar gyfer datrys cwynion
- y terfynau amser ar gyfer cyflwyno cais a gwneud penderfyniad.

6 CYFLWYNIAD AR OFYNION Y RHEOLIAD CYFFREDINOL AR DDIOGELU DATA (GDPR)

6.1 Rhoddodd Brian Mottershead, Cydlynydd Gwasanaethau Cefnogol sy'n gyfrifol am faterion diogelu data, gyflwyniad ar ofynion y Rheoliad GDPR.

6.2 Bydd y Rheoliad GDPR yn cael ei roi ar waith ar 25 Mai 2018; rhai o'r pwyntiau allweddol a nodwyd oedd ei fod yn diweddaru'r ddeddfwriaeth gyfredol ar ddiogelu data, yn helaethu hawliau i wrthrychau data, yn cynyddu atebolrwydd a thryloywder, ac mae cosbau uwch am dorri'r ddeddfwriaeth. Fe wnaeth y Cydlynydd Gwasanaethau Cefnogol esbonio'r gofynion ar ATAGC, a dweud bod yr holl staff wedi cael gwybod am oblygiadau'r ddeddfwriaeth newydd.

6.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a'r goblygiadau o ran data staff a gwybodaeth sensitif a allai o bosibl gael eu trafod yn y cyfarfodydd.**

7 Y GOFRESTR RISGIAU

7.1 Cyflwynodd y PST MacArthur y gofrestr risgiau i'r aelodau. Nodwyd bod fformat y gofrestr yn gyson â'r un a roddwyd gan y Rheolydd Pensiynau. Roedd yr aelodau'n cydnabod na ellid dileu pob risg felly roedd yr Awdurdod yn rheoli risgiau cystal â phosibl.

7.2 Ar ôl y cyflwyniad ar y Rheoliad GDPR, bydd y Rheoliad GDPR yn cael ei ychwanegu at y gofrestr fel risg. Cytunodd yr aelodau y byddai o fudd i ychwanegu colofn ar risgiau sy'n anodd cael gwared arnynt.

7.3 **PENDERFYNWYD cytuno i ddiwygio fformat y gofrestr i ddangos y risg cyn ac ar ôl ei liniaru, ac i ail-gyflwyno'r gofrestr i'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn y cyfarfod nesaf.**

8 YMWYBYDDIAETH O DRETHI PENSIYNAU A'R POLISI TALIADAU CYNLLUN GWIRFODDOL

8.1 Cafodd yr adroddiad ei gyflwyno i roi gwybod i'r aelodau am y trefniadau Trethi Pensiwn mewn perthynas â Therfyn Lwfans Blynyddol fel y mae'n gymwys i Gynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

8.2 Nododd yr aelodau y bydd gweithwyr sydd â thwf cynilon pensiwn sy'n fwy na'u lwfans blynyddol (£40,000 ar hyn o bryd) yn agored i ymrwymiad treth. Yn ôl Deddf Cyllid 2004, rhaid i weithwyr sefydlu trefniadau i ganiatáu i'r ymrwymiad treth gael ei ohirio gan yr unigolyn os atebir rhai meini prawf (o'r enw 'Cynllun Taliadau Gorfodol' ('Mandatory Scheme Pays')). Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'r dreth yn cael ei thalu yn y lle cyntaf drwy'r Gronfa Bensiwn ac yn cael ei hadennill gan y gweithiwr drwy fuddion pensiwn is.

8.3 Nodwyd hefyd y gallai'r Cynlluniau Pensiwn hefyd sefydlu mesurau ychwanegol sy'n mynd y tu hwnt i'r trefniadau gorfodol (o'r enw Taliadau Cynllun Gwirfoddol' ('Voluntary Scheme Pays')). Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd i'r aelodau yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer y Dreth Pensiwn mewn perthynas â'r Terfyn Lwfans Blynyddol fel yr oedd yn gymwys i Gynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân, a newidiadau manwl i'r trefniadau hyn sy'n mynnu bod yr Awdurdod Tân ac Achub yn ystyried a ddylid cyflwyno polisi Taliadau Cynllun Gwirfoddol ar gyfer unigolion y mae'r mater yn effeithio arnynt.

8.4 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi cynnwys yr adroddiad a gyflwynwyd a'r Polisi 'Taliadau Cynllun Gwirfoddol drafft, a**

**(ii) argymell i'r Awdurdod Tân ac Achub ei fod yn cyflwyno Polisi Taliadau Cynllun Gwirfoddol.**

9 BWRDD PENSIWN LLEOL CYNLLUNIAU PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN – ADRODDIAD BLYNYDDOL 2017/18

9.1 Cafodd adroddiad blynyddol drafft y Bwrdd Pensiwn Lleol, sy'n nodi gwaith y bwrdd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, ei gyflwyno i'r aelodau cyn ei gyflwyno i gyfarfod yr ATA ym mis Mehefin 2018.

9.2 **PENDERFYNWYD argymell bod yr adroddiad blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub ym mis Mehefin 2018, i'w gymeradwyo.**

10 Y DIWEDDARAF AM FWRDD CYNGHORI'R CYNLLUN

10.1 Cafodd yr aelodau wybod ar lafar am gyfarfod Bwrdd Cynghori'r Cynllun a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2018.

10.2 Dyma rai o'r materion a drafodwyd:

- Prisiad GAD 2016 – nodwyd nad oedd y GAD yn gallu cadarnhau pryd y byddai'r adroddiad prisio terfynol ar gael. Roedd yn debygol y byddai'n rhaid i Fwrdd Cynghori'r Cynllun Cymru gyfarfod rhwng Mai a Hydref i drafod canlyniadau'r prisiad.
- Yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Byrddau Pensiwn Lleol – eitem sefydlog ar yr agenda yw hon, ac ystyrir ei bod yn fuddiol gan ei bod yn galluogi pob ATA yng Nghymru i weithio ar y cyd ar faterion, gyda'r nod o gael dull cyson o ymdrin ag ymarferiadau pensiwn/prosiectau drwy ddefnyddio'r un deunydd cyfathrebu.
- Newidiadau i Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân – roedd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ddau orchymyn yn ymwneud â buddion goroeswyr os ydynt yn ailbriodi a newidiadau i gynllun 2015 wedi dod i ben yn Rhagfyr 2017, fe wnaeth yr aelodau nodi'r canlynol mewn perthynas â buddion goroeswyr:

  - ***Hawl partneriaid sy'n goroesi (i ddiffoddwyr tân a fu farw o ganlyniad i anaf ar ddyletswydd) i fudd marwolaeth os ydynt yn ailbriodi* – Newidiadau i gynllun pensiwn 1992 a chynllun digolledu 2007.**

  Mae'r ymgynghoriad wedi darparu pedwar opsiwn o ran cadw buddion goroeswyr os ydynt yn ailbriodi neu'n ffurfio partneriaethau sifil newydd, gan gynnwys gwahanol lefelau o ôl-weithredu. Roedd Llywodraeth Cymru wedi nodi pa opsiwn oedd orau ganddyn nhw, sef dileu'r rheol a oedd yn tynnu buddion os ydynt yn ailbriodi o 1 Ebrill 2015 ymlaen, ac adfer buddion i'r rhai a oedd eisoes wedi'u colli oddi ar y dyddiad hwnnw.

- ***Brewster (dileu'r gofyniad i aelodau'r cynllun enwebu partner sy'n cyd-fyw er mwyn cael buddion goroeswyr)* – Newid cynllun pensiwn 2007**

10.3 Ar ôl y newid uchod, dywedodd y Cyng. J B Hughes y gallai fod angen iddo ddatgan buddiant, cadarnhaodd y Cadeirydd y bydd yn gwneud ymholiadau ac yn nodi'r mater yn y cofnodion os oes angen.

10.4 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth ddiweddaraf.**

11 Y CYFARFOD NESAF

11.1 Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ddydd Llun 10 Medi am 10 o'r gloch y bore.